

Adroddiad Arolygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Tŷ Grosvenor

Dyddiad yr arolygiad: 25, 26 a 27 Ebrill 2022

Dyddiad cyhoeddi: 28 Gorffennaf 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oeddiad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd yn Nhŷ Grosvenor ar 25, 26 a 27 Ebrill 2022.

Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Alwen - 15 gwely un rhywedd yn darparu gwasanaethau adsefydlu dan glo
- Ward Brenig - 15 gwely un rhywedd yn darparu gwasanaethau adsefydlu dan glo.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, pedwar adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt oedd yn adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl), ac un adolygydd profiad cleifion. Arweiniwyd yr arolygiad gan uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn sgorio'r gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty naill ai'n dda iawn neu'n dda. Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol ac yn trin y cleifion ag urddas a pharch. Roedd amrywiaeth o weithgareddau a therapiau addas ar gael i'r cleifion. Gallai'r cleifion ymgysylltu a rhoi adborth i'r staff ar y ddarpariaeth gofal yn yr ysbyty mewn nifer o ffyrdd. Roedd eiriolwr iechyd meddwl ar gael i'r cleifion a oedd yn darparu gwybodaeth a chymorth ar unrhyw faterion a allai fod ganddynt ynghylch eu gofal.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Rhaid gwneud gwaith i wella gwedd yr ardd i gleifion yn ward Brenig
- Rhaid atgyweirio neu newid y popty yn y gegin therapi galwedigaethol yn ward Alwen.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd penodi cynrychiolwyr cleifion yn fenter gadarnhaol a helpodd i hyrwyddo ymgysylltiad cleifion a sicrhau bod llais y cleifion yn cael ei glywed.

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn ymddangos bod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu cynnal i safon dda ac roeddent yn hawdd eu llywio. Roedd ymatebion diogel a therapiwtig ar waith i reoli ymddygiad heriol ac i hyrwyddo diogelwch a llesiant y cleifion. Roedd y dogfennau statudol a welsom yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithiol yn briodol. Roedd protocolau addas ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch, a heintiau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhai archwiliadau yn effeithiol o ran nodi gwallau neu feysydd i'w gwella.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Rhaid cwblhau siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth i safon uwch a'u harchwilio'n fwy effeithiol
- Rhaid datblygu canllawiau sy'n nodi'r gofynion ar gyfer defnyddio'r Ardaloedd Gofal Ychwanegol yn ddiogel ar bob ward

- Rhaid atgoffa'r staff o bwysigrwydd gwisgo eu larwm personol bob amser.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd ffocws ychwanegol cadarn ar ofal iechyd corfforol cleifion dan arweiniad y nyrs iechyd corfforol yn yr ysbyty.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud mewn nifer o feysydd ers ein harolygiadau blaenorol yn yr ysbyty. Roedd yn ymddangos bod uwch-reolwyr yn goruchwyllo materion clinigol a gweithredol yn well. Rhoddodd mwyafrif y staff a gwblhaodd holiaduron adborth cadarnhaol ynglŷn â gweithio yn yr ysbyty. Roedd prosesau recriwtio yn cael eu cynnal mewn dull agored a theg ac archwiliadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn dechrau cyflogaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Rhaid parhau ag ymdrechion i recriwtio staff parhaol er mwyn lleihau nifer y staff asiantaeth a ddefnyddir i lenwi rotâu ac i ddarparu sefydlogrwydd a chysondeb yn y gofal a ddarperir i'r cleifion.

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion yn ystod yr arolygiad er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Derbyniwyd cyfanswm o naw holiadur wedi'u cwblhau. Roedd pob un o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn glaf yn yr ysbyty am fwy nag un mis. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty naill ai'n dda iawn neu'n dda. Mae rhai o ganlyniadau'r holiadur yn ymddangos drwy'r adroddiad.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gweld tystiolaeth bod y cleifion yn cael asesiadau corfforol priodol yn ogystal ag asesiadau o'u gofal iechyd meddwl wrth gael eu derbyn. Roedd y cleifion hefyd yn cael gwiriadau iechyd corfforol parhaus yn ystod eu harhosiad, megis rheoli a monitro pwysau. Cofnodwyd mesuriadau ar siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ac mewn cynlluniau gofal iechyd a llesiant corfforol. Cyflogwyd nyrs iechyd corfforol rhan amser gan yr ysbyty i gyflawni'r tasgau hyn. Roedd y nyrs hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl gleifion wedi'u cofrestru yn y practis meddyg teulu lleol a bod ganddynt fynediad at wasanaethau iechyd allweddol eraill pan fo angen.

Roedd pob ward yn darparu ystod o gyfleusterau i helpu'r cleifion i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Roedd digon o le yn y mannau cymunol ac roedd DVDs a llyfrau ar gael i'r cleifion. Roedd deunyddiau celf ar gael ar gyfer gweithgareddau crefft ac roedd ceginau therapi galwedigaethol yn galluogi'r cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau bywyd bob dydd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y popty yn y gegin therapi galwedigaethol yn ward Alwen yn rhydlyd ac rydym yn argymhell y dylid ei atgyweirio neu ei newid.

Roedd offer campfa ar gael yn y ddwy ward ac roedd y cleifion yn cymryd rhan mewn dosbarth cadw'n heini yn ward Brenig yn ystod yr arolygiad. Trefnodd y tîm therapi galwedigaethol weithgareddau grŵp ac unigol i'r cleifion yn fewnol yn yr ysbyty ac yn allanol yn y gymuned leol. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron yn teimlo bod digon o weithgareddau hamdden a chymdeithasol priodol iddynt eu gwneud.

Roedd gan y ddwy ward erddi y tu allan a gwelsom gleifion yn defnyddio'r mannau hyn yn rheolaidd yn ystod y dydd. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd

holiaduron eu bod yn gallu mynd allan at ddibenion ymarfer corff a llesiant. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod gardd ward Alwen yn ymddangos wedi'i chynnal a'i chadw'n well na gardd ward Brenig, lle'r oedd llawer iawn o chwyn a rhai dodrefn wedi torri. Rydym yn argymhell bod gwaith yn cael ei wneud i wella gwedd yr ardd ar gyfer ward Brenig.

Mae Tŷ Grosvenor yn ysbyty dim smygu a dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael cymorth a chynghor gan staff i roi'r gorau i smygu cyn i'r gwaharddiad smygu ddod i rym.

Urddas a pharch

Gwelsom y staff yn trin y cleifion yn briodol ag urddas a pharch. Roedd yn ymddangos bod y staff wedi datblygu perthynas dda â'r cleifion ac yn cymryd amser i ddeall eu hanghenion neu unrhyw bryderon a godwyd ganddynt. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron yn teimlo bod y staff yn gwrtais tuag atynt ac yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd ystafelloedd gwely en-suite i gleifion yn darparu safon dda o breifatrwydd ac urddas. Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd, ond gallai'r staff ddatgloi'r cloeon pe bai angen. Gwelsom staff yn parchu preifatrwydd y cleifion trwy gnocio ar ddrysau ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi cyn mynd i mewn. Roedd gan bob drws ystafell wely banel gweld a oedd yn galluogi'r staff i arsylwi o'r coridor heb darfu ar y cleifion. Yn ystod ein taith o amgylch yr ysbyty, gwnaethom nodi'n gadarnhaol bod y paneli golwg wedi'u cau yn ddiodyn er mwyn diogelu preifatrwydd y cleifion.

Roedd y cleifion yn gallu rhoi gwedd bersonol ar eu hystafelloedd a storio eu heiddo eu hunain. Roedd eitemau personol yn cael eu hasesu ar sail risg unigol ar gyfer diogelwch pob claf. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio ffonau symudol personol. Roedd ffôn ar gael yn yr ysbyty i'r cleifion ei ddefnyddio i gysylltu â ffrindiau a theulu os oedd angen.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Roedd canllaw gwybodaeth i gleifion ar gael i gleifion a'u perthnasau / gofalwyr. Roedd datganiad o ddiben y darparwr cofrestredig yn disgrifio nodau ac amcanion y gwasanaeth. Gwelsom fod y ddwy ddogfen yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd tystysgrifau cofrestru gan AGIC yn cael eu harddangos ym mynedfa'r prif adeilad.

Gwelsom fod gwybodaeth berthnasol i'r cleifion yn cael ei harddangos ym mhob rhan o'r wardiau. Roedd hyn yn cynnwys manylion am sut y gallai'r cleifion gysylltu â gwasanaethau eirioli, a chael mynediad atynt, a sut y gallai'r cleifion leisio

cwyn. Roedd gwybodaeth am rôl AGIC ar gael hefyd ac roedd yn hysbysu'r cleifion y gallent gysylltu â'r sefydliad pe dymunent.

Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion ar gael yn Saesneg yn unig gan fwyaf. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth ar gael i'r cleifion mewn ieithoedd eraill ar gais. Gwnaethom siarad â chleifion Cymraeg eu hiaith yn yr ysbyty a gadarnhaodd eu bod yn ymwybodol y byddai gwybodaeth ar gael yn Gymraeg pe bai angen. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod wedi cael gwybod pa aelodau o staff oedd yn gallu sgwrsio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd byrddau cipolwg ar statws cleifion wedi'u lleoli yn y swyddfeydd nyrsio ar bob ward. Roedd y byrddau allan o olwg cleifion a oedd yn helpu i ddiogelu cyfrinachedd cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y staff yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion, ac roedd y cleifion yn hyderus wrth fynd at y staff i gymryd rhan mewn trafodaethau. Siaradodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn gadarnhaol am eu rhyngweithiadau â'r staff yn ystod eu hamser yn yr ysbyty. Roedd ystafelloedd addas ar gael i'r cleifion gyfarfod â'r staff a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn breifat.

Roedd cyfarfodydd bore dyddiol yn cael eu cynnal i ddweud wrth y cleifion am weithgareddau sydd i ddod yn yr ysbyty a'r gymuned, a gwybodaeth berthnasol arall, megis tribiwnlysoedd ac apwyntiadau meddygol.

Roedd cynrychiolwyr cleifion wedi'u penodi i fod yn bwynt cyswllt i'r cleifion eraill siarad â nhw am unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Dywedwyd wrthym fod cynrychiolydd y cleifion yn cadeirio cyfarfodydd cymunedol bob mis lle mae'r staff a'r cleifion yn trafod unrhyw awgrymiadau, pryderon neu adborth gan gleifion. Roedd cynrychiolydd y cleifion hefyd yn mynychu cyfarfodydd llywodraethu clinigol wythnosol. Gwnaethom nodi hyn fel ffordd gadarnhaol o annog y cleifion i gymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn.

Cynllunio a darparu gofal

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu cynlluniau gofal a thriniaeth pum claf. Roedd yn gadarnhaol nodi bod ansawdd y cynlluniau gofal a thriniaeth wedi gwella ers ein harolygiadau diwethaf yn Nhŷ Grosvenor. Ceir manylion ein canfyddiadau ar y cynlluniau gofal a thriniaeth ym Mesur Monitro Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: adran Cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Roedd cyfarfod trosglwyddo yn cael ei gynnal bob bore yn ystod yr wythnos er mwyn i'r staff nyrsio roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm amlddisgyblaethol am

unrhyw bryderon, materion neu ddigwyddiadau a oedd wedi digwydd y diwrnod cynt. Gwnaethom fynychu cyfarfod trosglwyddo yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod y staff yn dangos lefel dda o ddealltwriaeth o'r cleifion yr oeddent yn gofalu amdanynt, a bod trafodaethau'n canolbwyntio ar yr hyn oedd orau i'r claf unigol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion pedwar unigolyn a oedd wedi cael eu cadw yn yr ysbyty dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf). Gwelsom fod y dogfennau cyfreithiol a adolygwyd gennym yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, a'u bod yn dilyn canllawiau Cod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl Cymru (2016) (y Cod).

Roedd gan yr ysbyty bolisiâu ar waith i helpu i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth y cleifion yn cael eu parchu. Roedd yr ysbyty yn bennaf yn darparu amgylchedd hygyrch i bobl a allai fod ag anawsterau symudedd. Roedd lifft ar gael i helpu pobl ag anawsterau symudedd i gael mynediad at ward Brenig, a oedd ar y llawr cyntaf. Fodd bynnag, gwnaethom nodi mai dim ond drwy ddefnyddio grisiau y ceir mynediad at ardd ward Brenig. Dylid ystyried sicrhau mynediad diogel at ardd ward Brenig i gleifion sydd angen cymorth ychwanegol.

Dywedwyd wrthym fod gan bob claf fynediad at eiriolwr iechyd meddwl a all ddarparu gwybodaeth a chymorth i gleifion ar unrhyw broblemau a allai fod ganddynt ynghylch eu gofal. Cadarnhaodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi cael cynnig cymorth eiriolwr yn ystod eu hamser yn yr ysbyty.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Gwelsom dystiolaeth gadarn y gallai'r cleifion ymgysylltu a rhoi adborth i'r staff ynglŷn â'u gofal yn yr ysbyty mewn nifer o ffyrdd. Roedd y cyfarfodydd cymunedol boreol dyddiol, a'r cyfarfodydd cymunedol misol, yn rhoi cyfleoedd i'r cleifion drafod materion yn ymwneud â'u gofal. Gwelsom fod unrhyw geisiadau gan gleifion yn cael eu harddangos ar waliau pob ward ynghyd ag ymateb gan y staff i ddangos pa gamau a gymerwyd. Roedd byrddau 'dywedo chi, gwnaethom ni' hefyd wedi'u harddangos ar bob ward i hysbysu'r cleifion am newidiadau a wnaed o ganlyniad i'w hadborth. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen diweddarau'r bwrdd 'dywedo chi, gwnaethom ni' yn ward Brenig yn fwy rheolaidd gan nad oedd wedi'i ddiweddarau ers mis Ionawr 2021.

Dywedwyd wrthym fod arolygon yn cael eu dosbarthu i gleifion ar ôl iddynt gael eu derbyn ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty i helpu i nodi unrhyw welliannau angenrheidiol o ran y naill broses neu'r llall. Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn yr ysbyty hefyd yn cynnal arolygon teulu a gofalwyr.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, cawsom sicrwydd bod gan Tŷ Grosvenor brosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau i helpu i gynnal iechyd a diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn yr ysbyty. Roedd y fynedfa i'r ysbyty yn ddiogel bob amser trwy gydol yr arolygiad. Roedd ystod o bolisiau iechyd a diogelwch cyfredol ar gael i'r staff. Roedd rheolwyr ward yn cynnal gwiriadau wythnosol o'r amgylchedd ar bob ward. Roedd archwiliadau iechyd a diogelwch misol yn cael eu cwblhau a'u cyflwyno i'r tîm iechyd a diogelwch canolog yn Elysium Healthcare er mwyn iddynt allu monitro cydymffurfedd.

Roedd asesiadau risg pwynt clymu wedi'u cynnal a oedd yn manylu ar y camau a gymerwyd i liniaru pwyntiau clymu posibl ledled yr ysbyty. Roedd adolygiad o'r asesiadau risg clymu gan y rheolwr sicrhau ansawdd rhanbarthol i fod i'w gynnal ar yr un diwrnod â'r arolygiad. Cafodd hwn ei ohirio oherwydd inni gyrraedd yr ysbyty, ond cawsom ein sicrhau y byddai'r adolygiad yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â rheolwr yr ysbyty ynghylch p'un a oedd drysau ystafelloedd ymolchi y tu mewn i ystafelloedd gwely'r cleifion yn bwyntiau clymu posibl. Sicrhaodd rheolwr yr ysbyty ni y byddai risgiau posibl drysau'r ystafelloedd ymolchi yn cael eu hychwanegu at yr asesiad risg clymu pan fyddai'r rheolwr sicrhau ansawdd rhanbarthol yn ei adolygu.

Roedd larymau personol ar gael i'r staff eu gwisgo y gallent eu defnyddio i alw am gymorth pe bai angen. Gwnaethom nodi nad oedd nifer fach o staff yn gwisgo eu larwm personol yn ystod yr arolygiad. Rydym yn argymhell bod y staff yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd gwisgo eu larwm personol bob amser er mwyn helpu i amddiffyn diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd mannau galw nyrsys ar gael yn ystafelloedd gwely'r cleifion fel y gallai'r cleifion alw am gymorth pe bai angen.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith yn yr ysbyty. Roedd ystod o bolisiau cyfredol ar gael a oedd yn manylu ar y gweithdrefnau rheoli heintiau amrywiol i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel. Roedd archwiliadau rheolaidd wedi'u cwblhau i wirio glanweithdra yr amgylchedd a monitro cydymffurfedd â gweithdrefnau'r ysbyty.

Dywedwyd wrthym fod dau arweinydd atal a rheoli heintiau ar wahân wedi'u penodi, un o'r staff cadw tŷ, ac un o'r staff clinigol. Roedd hyn i'w weld yn gweithio'n dda wrth i ni weld staff cadw tŷ, nyrsio a chymorth yn cydweithio'n dda

â'i gilydd ac roedd y staff i'w gweld yn deall eu cyfrifoldebau unigol mewn perthynas â mesurau rheoli heintiau yn yr ysbyty. Roedd amserlenni glanhau yn cofnodi'r gwaith glanhau oedd yn cael ei gyflawni yn yr ysbyty.

Roedd amgylchedd y ddwy ward a'r ysbyty ehangach yn lân a thaclus. Roedd y dodrefn a'r ffitiadau'n briodol ar gyfer y grŵp cleifion ac mewn cyflwr da ar wahân i'r cadeiriau yn lolfa gymunol ward Alwen. Roedd y defnydd ar freichiau'r cadeiriau wedi treulio ac mae'n rhaid ei newid gan nad oes modd ei lanhau'n effeithiol.

Gwelsom fod gweithdrefnau priodol ar waith i helpu i reoli'r risg o drosglwyddo COVID-19 trwy'r ysbyty cyfan. Roedd amryw o orsafoedd hylif diheintio dwylo ar gael i'r staff a'r cleifion eu defnyddio. Roedd y staff yn gwisgo masgiau wyneb yn y wardiau, ac ni wnaeth y staff dynnu sylw at unrhyw broblemau ynghylch mynediad at gyfarpar diogelu personol arall yn ystod ein trafodaethau. Gwelsom y staff yn annog y cleifion i sicrhau hylendid dwylo da megis ymolchi dwylo cyn amser bwyd.

Gwelsom gyfradd gydymffurfio uchel ymhlith aelodau parhaol o'r staff clinigol ar gyfer hyfforddiant gorfodol mewn atal a rheoli heintiau lefel un (98 y cant) a lefel dau (94 y cant).

Maeth

Gwelsom fod anghenion dietegol y cleifion wedi'u hasesu wrth eu derbyn a bod cleifion yn cael gwiriadau rheoli pwysau parhaus yn ystod eu harhosiad. Cofnodwyd mesuriadau ar siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ac mewn cynlluniau gofal iechyd a llesiant corfforol.

Darperir amrywiaeth o brydau bwyd i'r cleifion trwy gydol y dydd gan yr ysbyty. Gwelsom y dewisiadau bwydlen ar gyfer pob wythnos yn cael eu harddangos ar bob ward. Roedd cyfleusterau ar gael i gleifion gael diodydd poeth ac oer. Cytunodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod yn gallu cael diod pan oedd angen.

Yn ystod ein taith o amgylch ward Alwen daethom o hyd i frechdanau yn oergell y gegin a oedd yn cynnwys enw'r claf yn unig a dim gwybodaeth arall. Rhaid labelu'r dyddiad y gwneir eitemau wedi'u pecynnu a'u dyddiad defnyddio olaf er mwyn diogelu iechyd y cleifion.

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn gallu rhoi adborth ar eu hawgrymiadau a'u barn i'r staff am y bwyd yn yr ysbyty yn ystod eu cyfarfodydd cymunedol bob mis. Gwelsom dystiolaeth fod yr ysbyty'n gwrando ar y cleifion gan eu bod yn cymryd camau i roi awgrymiadau ar waith, megis cytuno i sicrhau bod mwy o ddewisiadau llysiau ar gael. Roedd adborth ar y bwyd gan y cleifion a gwblhaodd holiaduron yn amrywio; cytunodd hanner y cleifion fod y bwyd yn yr ysbyty yn dda a'i fod yn bodloni eu gofynion dietegol, tra bod hanner y cleifion yn anghytuno.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisiau perthnasol, megis rheoli meddyginiaethau a thawelu cyflym, yn gyfredol ac ar gael i staff yn electronig ar y cyfrifiadur yn yr ystafelloedd clinig.

Roedd tystiolaeth dda bod staff yn sicrhau bod gan gleifion gynlluniau rheoli meddyginiaeth unigol. Gwelsom fod staff clinigol, y nyrs iechyd corfforol a'r meddyg teulu lleol wedi gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod penderfyniadau ar feddyginiaeth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol.

Roedd yn amlwg bod y cleifion wedi cael eu cynnwys yn y trafodaethau hyn, a nodwyd gennym fel arferion da. Roedd ystod o daflenni gwybodaeth hawdd eu deall am feddyginiaeth ar gael i gleifion eu gweld.

Gwelsom fod ystafelloedd y clinig yn lân ac yn daclus, a bod meddyginiaethau cleifion unigol a meddyginiaethau stoc yn cael eu storio'n briodol. Roedd oergelloedd meddyginiaeth yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom rai bylchau yn y cofnodion o wiriadau tymheredd dyddiol yr oergelloedd meddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig ar y ddwy ward.

Roedd cyffuriau a reolir yn cael eu storio'n ddiogel a gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau stoc yn cael eu cynnal ddwywaith y dydd. Ar y cyfan, gwelsom fod cyffuriau a reolir yn cael eu rhoi i gleifion yn unol â chanllawiau arferion gorau. Fodd bynnag, gwelsom ddau achos lle nad oedd cyffuriau a reolir wedi'u gwrthlofnodi a dau achos lle'r oedd cofnodion wedi'u hepgor yn y llyfr cofnodion.

Roedd mwyafrif y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth y gwnaethom edrych arnynt wedi'u cwblhau yn ôl y gofyn. Roedd gan bob un o'r siartiau'r manylion personol perthnasol wedi'u dogfennu megis enw, statws alergedd a statws cyfreithiol. Fodd bynnag, gwelsom rai hepgoriadau lle na lofnodwyd ar gyfer meddyginiaeth a roddwyd i gleifion neu na nodwyd y'i gwrthodwyd gan y claf ar y siartiau.

Dywedwyd wrthym fod archwiliadau wythnosol o'r siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cynnal yn fewnol gan staff clinigol ac yn allanol gan fferylllydd annibynnol. Nid oedd rhai o'r bylchau ar y siartiau a welsom wedi'u nodi yn ystod y naill archwiliad na'r llall. Mewn un achos, canfu'r archwiliad allanol broblem gyda siart anghyflawn ond nid oedd wedi'i uwchgyfeirio'n effeithiol er mwyn i'r mater gael ei ymchwilio ymhellach yn fewnol. Roedd hyn yn golygu na chawsom sicrwydd bod y systemau sydd ar waith i fonitro ansawdd cwblhau siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth a nodi gwallau yn effeithiol. Rydym yn argymhell bod y gwasanaeth yn cynnal adolygiad i nodi gwelliannau yn y prosesau archwilio a'r gweithdrefnau ar gyfer uwchgyfeirio mewnol pan fydd y fferylllydd annibynnol yn nodi materion yn allanol.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Gwelsom brosesau ar waith i helpu i sicrhau fod y staff yn yr ysbyty yn diogelu'r cleifion yn briodol. Gwelsom fod digwyddiadau wedi bod yn destun ymchwiliadau mewnol a'u bod hefyd wedi'u cyfeirio at asiantaethau diogelu allanol.

Gwelsom dystiolaeth fod diogelu yn cael ei gynnwys mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol fel eitem sefydlog ar yr agenda er mwyn helpu i nodi unrhyw themâu a gwersi a ddysgwyd. Fe wnaethom nodi yng nghofnodion cyfarfod llywodraethu clinigol mis Chwefror 2022 fod cydymffurfedd staff â hyfforddiant diogelu yn 100 y cant.

Dywedodd rhai cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu diogelu rhag cleifion eraill tra yn yr ysbyty. Rydym yn argymhell bod y gwasanaeth yn myfyrio ar y canfyddiad hwn ac yn nodi ffyrdd o wneud i bob claf deimlo'n ddiogel yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom dystiolaeth o wiriadau wythnosol yn cael eu cynnal ar offer dadebru ac achosion brys a gedwir ar bob ward. Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y rhain wedi digwydd i sicrhau bod yr offer yn bresennol a heb ddyddio.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd gan yr ysbyty bolisiau ar waith i helpu i amddiffyn diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Disgrifiodd y polisi rheoli trais ac ymddygiad ymosodol yn ddiogel ac yn therapiwtig dulliau i staff eu dilyn i reoli ymddygiad heriol yn ddiogel. Gwnaethom nodi bod y polisi yn adlewyrchu model Safewards a gwelsom y 10 o ymyriadau yn cael eu harddangos ym mhob un o'r wardiau. Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth ar gyfer y cleifion yn cynnwys strategaethau ymddygiad cadarnhaol.

Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn arsylwi'r cleifion yn amlach yn unol â'r polisi arsylwi ac ymgysylltu (diogel a chefnogol) pe bai eu hymddygiad yn dod yn achos pryder. Trafodwyd lefelau arsylwi cleifion unigol ymhlith y tîm amlddisgyblaethol yn y cyfarfodydd trosglwyddo dyddiol.

Anogir y cleifion i drafod unrhyw arferion cyfyngol a weithredir gan yr ysbyty yn eu cyfarfodydd cymunedol wythnosol. Mae unrhyw adborth yn cael ei drafod gan y staff mewn cyfarfodydd arferion lleiaf cyfyngol bob mis i adolygu p'un a ellir dileu unrhyw arferion cyfyngol.

Roedd y staff wedi dilyn hyfforddiant i reoli trais ac ymddygiad ymosodol yn therapiwtig. Gwelsom fod y defnydd o ataliaeth wedi'i gofnodi yng nghofnodion y cleifion ac ar y system wybodaeth ac adroddiadau integredig electronig gorfforaethol (IRIS). Dywedwyd wrthym fod yr holl achosion o ataliaeth yn cael eu trafod gan y tîm amlddisgyblaethol yn y cyfarfodydd trosglwyddo dyddiol a bod ôl-drafodaeth, ac arferion myfyriol yn cael eu cynnal gan y staff a'r cleifion yn dilyn unrhyw ddigwyddiadau.

Roedd gan bob ward Ardal Gofal Ychwanegol ar wahân a oedd yn darparu amgylchedd ysgogiad isel ar gyfer y cleifion yr oedd ei angen arnynt. Roedd amodau defnyddio'r Ardal Gofal Ychwanegol ar gyfer cleifion unigol wedi'u cofnodi yn eu cynlluniau gofal a thriniaeth. Dywedwyd wrthym nad yw'r Ardal Gofal Ychwanegol byth yn cael ei ddefnyddio i neilltuo claf. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi corfforaethol ar waith a oedd yn nodi'r canllawiau a'r gofynion i sicrhau bod yr Ardaloedd Gofal Ychwanegol yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn yr ysbyty, er enghraifft nid oedd cofnod na ddylid byth defnyddio'r Ardaloedd Gofal Ychwanegol at ddibenion neilltuo.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig. Roedd y system electronig wedi'i diogelu gan gyfrinair i atal mynediad heb awdurdod ac achosion o dorri cyfrinachedd. Gwnaethom ddefnyddio'r system drwy gydol yr arolygiad a gwelsom fod cofnodion cleifion yn gynhwysfawr ac yn drefnus, a oedd yn ei gwneud hi'n hawdd llywio drwy'r adrannau.

Mae rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion a chynlluniau gofal y cleifion wedi'i nodi yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol pedwar claf sy'n aros yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Canfuwyd bod yr holl gofnodion yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Cod Ymarfer. Roedd rhesymau clir yn cael eu dogfennu i ddangos pam mai cadw cleifion dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal i gleifion.

Roedd dogfennau gwreiddiol yn cael eu storio'n ddiogel yn y swyddfa weinyddol ac roedd staff yr ysbyty yn cadw fersiynau electronig. Roedd y dogfennau a adolygwyd gennym wedi'u trefnu'n dda, ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol. Sicrhawyd bod y cleifion yn ymwybodol o'u hawliau mewn perthynas â'u cadw yn yr ysbyty ac roedd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i'w deall.

Roedd yr holl dystysgrifau cydsynio i driniaeth berthnasol yn cael eu storio ochr yn ochr â'r siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth yn ôl yr angen. Gwelsom y gofynnwyd am asesiadau'r Meddyg Ail Farn Penodedig pan oedd cleifion wedi gwrthod rhoi cydsyniad.

Roedd trefniadau da ar waith i gofnodi absenoldebau Adran 17 yn briodol. Gwelsom fod absenoldeb yn derbyn asesiad risg addas a bod y ffurflenni yn pennu amodau a chanlyniadau absenoldeb pob claf. Roedd y cleifion wedi llofnodi eu ffurflen absenoldeb i ddangos eu bod yn cytuno â'r telerau.

Roedd cymorth da ar gael i gleifion gan y gwasanaeth Eirioli Iechyd Meddwl Annibynnol lleol. Mae eiriolwr yn mynychu cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol a chyfarfodydd gofal a thriniaeth pan fo angen cymorth a chefnogaeth ar gleifion.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn gyfoes, yn hawdd eu llywio ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd gan bob claf ei raglen ofal ei hun a oedd yn adlewyrchu ei anghenion a'i risgiau unigol. Roedd parthau Mesur y Gymraeg yn cael eu hystyried ac roedd amcanion yn canolbwyntio ar adferiad ac adsefydlu. Fodd bynnag, roeddem o'r farn y gallai'r cynlluniau gofal a thriniaeth elwa ar ddull gweithredu mesuradwy drwy gofnodi amllder ac amser parhad yr ymyriadau a restrir.

Roedd asesiadau cyn-derbyn ac ar ôl derbyn yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n glir yn y dogfennau. Roedd tystiolaeth o gynnwys timau amlddisgyblaethol wrth ddatblygu'r cynlluniau gofal a thriniaeth y gwnaethom eu gweld, a'u bod yn eu hadolygu'n barhaus. Roedd hefyd yn amlwg bod y cleifion wedi cael eu cynnwys yn y broses pennu gofal a thriniaeth, ac roedd llais y claf yn cael ei adlewyrchu'n dda yn y dogfennau. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn natblygiad eu cynllun gofal a thriniaeth.

Maes nodedig o arfer da oedd y ffocws ychwanegol ar ofal iechyd corfforol dan arweiniad y nyrs iechyd corfforol. Gwelsom asesiadau corfforol cynhwysfawr a chynlluniau gofal a thriniaeth cyfatebol ar gyfer sgrinio iechyd ataliol a rheoli cyflyrau tymor hwy.

Roedd tystiolaeth o gynlluniau rhyddhau o'r ysbyty ac ôl-ofal a gwnaethom nodi fod cleifion a chydlynwyr gofal wedi cael eu cynnwys yn y broses.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Adborth Staff

Dosbarthwyd holiaduron AGIC i'r staff yn ystod yr arolygiad er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Derbyniwyd cyfanswm o 18 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd ymatebion y staff yn gadarnhaol ar draws pob maes, ac roedd yr holl ymatebwyr (a roddodd farn) yn argymhell eu lleoliad iechyd meddwl fel lle i weithio, ac yn cytuno y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir i'w ffrindiau neu deulu. Mae rhai o ganlyniadau'r holiadur yn ymddangos drwy'r adroddiad.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd yn gadarnhaol, drwy gydol yr arolygiad, bod y staff yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn angerddol am eu rolau a gwelsom y staff yn gweithio fel tîm yn ystod ein hamser yn yr ysbyty.

Dywedodd pob aelod o staff a gwblhaodd holiadur wrthym fod yr ysbyty'n annog gwaith tîm a'u bod yn cael eu cefnogi i nodi a datrys problemau. Cytunodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur hefyd fod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol a bod uwch-reolwyr yn ceisio cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig.

Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud mewn nifer o feysydd ers ein harolygiadau blaenorol yn yr ysbyty. Roedd trefniadau sefydledig ar waith ar lefel ysbyty a oedd yn helpu i sicrhau bod rheolwyr yn goruchwyllo materion clinigol a gweithredol yn well. Roedd gweithgareddau archwilio a systemau a phrosesau monitro yn sicrhau bod yr ysbyty'n canolbwyntio ar gynnal safonau'n barhaus. Fodd bynnag, fel y crybwyllwyd ynghynt yn yr adroddiad, rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cwblhau'n briodol gan staff, i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn nodi meysydd i'w gwella.

Casglwyd gwybodaeth am ddiogelwch a pherfformiad yr ysbyty gan staff yr ysbyty a'i chyflwyno i'r tîm canolog yn Elysium Healthcare i gael ei monitro'n gorfforaethol. Dangosodd agendâu ar gyfer cyfarfodydd llywodraethu clinigol ystod eang o eitemau sefydlog i helpu i sicrhau bod yr ysbyty'n canolbwyntio ar bob agwedd ar y gwasanaeth.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn pe baent yn dymuno gwneud hynny. Mae unrhyw gwynion

a dderbynnir gan yr ysbyty yn cael eu categoreiddio fel rhai anffurfiol neu ffurfiol. Mae'r staff yn ceisio datrys cwynion anffurfiol cyn gynted â phosibl. Mae cwynion ffurfiol yn cael eu cofnodi mewn llyfr cofnodion ac yna'n cael eu lanlwytho i IRIS.

Dywedwyd wrthym fod cwynion, digwyddiadau a materion diogelu yn yr ysbyty yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol a'u bod hefyd yn cael eu hadolygu ar lefel gorfforaethol, i helpu i nodi tueddiadau a phatrymau ymddygiad.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu sefydliadol

Ar adeg ein harolygiad, roedd yn ymddangos bod niferoedd digonol o staff wedi'u hyfforddi'n briodol i ddiwallu anghenion asesedig y cleifion yn yr ysbyty. Fodd bynnag, o drafodaethau â staff roedd yn amlwg bod y gwasanaeth wedi profi anawsterau o ran cadw staff a nifer uchel o swyddi gwag, o ran y staff nyrsio yn ogystal â'r tîm amlddisgyblaethol. Dywedodd cyfarwyddwr yr ysbyty wrthym am fentrau sydd ar waith i recriwtio aelodau parhaol o staff. Mae cyfran uchel o staff asiantaeth wedi cael eu defnyddio yn yr ysbyty i lenwi unrhyw ddiffygion staffio. Dywedwyd wrthym y defnyddir yr un aelodau o staff asiantaeth sy'n gyfarwydd â'r ysbyty lle bynnag y bo modd er mwyn sicrhau cysondeb i'r cleifion. Fodd bynnag, dywedodd un aelod o staff:

“Mae'n ymddangos bod staff asiantaeth wedi dod yn ffordd o fyw ac mae hyn yn rhwystredig iawn i reolwyr a staff.”

Rhaid i'r gwasanaeth barhau i fod yn ystyriol wrth gyflogi staff asiantaeth i sicrhau nad yw cyfran y staff asiantaeth sy'n gweithio yn yr ysbyty yn effeithio ar ddiogelwch y gofal a ddarperir i'r cleifion.

Roedd pob aelod o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod yn gallu bodloni'r gofynion croes ar eu hamser yn y gwaith a bod ganddynt ddigon o amser i roi'r gofal sydd ei angen arnynt i'r cleifion. Cytunodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur hefyd y byddent yn argymhell yr ysbyty fel lle i weithio a phe byddai angen cymorth ar ffrind neu berthynas y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan yr ysbyty.

Gwnaethom adolygu'r ystadegau hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff yr ysbyty, a chanfod bod y cyfraddau cwblhau yn uchel ar 97 y cant. Dywedodd y staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod hefyd wedi cael cymorth gan yr ysbyty i ddilyn hyfforddiant arall a oedd yn berthnasol i'w rôl. Ym mis Ebrill 2022, roedd 91 y cant o staff hefyd wedi cael eu harfarniad blynyddol. Gwelsom hefyd fod staff wedi bod yn cael sesiynau goruchwyllo clinigol bob mis gydag uwch aelodau o staff.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd polisi recriwtio ar waith a oedd yn amlinellu'r trefniadau i sicrhau bod gwaith recriwtio yn dilyn proses agored a theg. Cyn cyflogaeth, mae'n ofynnol i

ddarpar staff ddarparu dau eirda a thystiolaeth o gymwysterau proffesiynol. Mae gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd yn cael eu cynnal, ac yna'n cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, i sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn yr ysbyty.

Mae staff parhaol sydd newydd eu penodi yn cael cyfnod sefydlu i ddysgu am yr ysbyty, darllen polisiâu'r cwmni, a chwblhau hyfforddiant gorfodol. Caiff staff eu hasesu gan uwch-reolwyr ar ôl tri mis i sicrhau eu bod wedi dangos eu bod yn gymwys i wneud y swydd yn ymarferol. Mae staff asiantaeth yn derbyn pecyn croeso cyn eu shifft gyntaf yn yr ysbyty i ddarparu gwybodaeth berthnasol am bob ward. Mae'n ofynnol i staff asiantaeth lofnodi'r pecyn i gadarnhau eu bod wedi ei ddeall cyn ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau. Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o staff gontractau cyflogaeth a phroffiliau rôl cyfoes.

Roedd polisi rhyddid dweud eich dweud / chwythu'r chwiban ar waith pe bai'r staff yn dymuno tynnu sylw cyfarwyddwr yr ysbyty, y darparwr cofrestredig neu gorff priodol arall at unrhyw bryderon yn uniongyrchol pe bai angen. Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw bryderon am arfer anniogel ac y byddent yn teimlo'n ddiogel yn mynegi pryderon am ofal cleifion neu faterion eraill yn yr ysbyty.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon dybryd a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Tŷ Grosvenor

Dyddiad yr arolygiad: 25-27 Ebrill 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon diffyg cydymffurfio dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tŷ Grosvenor

Dyddiad yr arolygiad: 25-27 Ebrill 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid atgyweirio neu newid y popty yn y gegin therapi galwedigaethol yn ward Alwen.	Ansawdd profiad y claf	Bu gweithiwr cynnal a chadw yn archwilio poptai ar y ddwy ward, canfuwyd bod angen atgyweirio popty yn ward Brenig. Mae wedi'i gyrchu'n rhannol a'i atgyweirio.	Cynnal a Chadw	Cwblhawyd
Rhaid gwneud gwaith i wella gwedd yr ardd yn ward Brenig.	Ansawdd profiad y claf	Gadawyd yr ardd yn ward Brenig ar adeg yr arolygiad i dyfu oherwydd cystadleuaeth o'r enw 'lets dig it'. Roedd defnyddwyr y gwasanaeth wedi gofyn am dynnu lluniau o'r ardd cyn ac ar ôl y broses, i gymryd rhan yn y gystadleuaeth. Ar ben hynny roedd defnyddwyr y gwasanaeth wedi gwneud cais i adael i'r ardd dyfu i annog bywyd gwyllt, yn enwedig gwenyn. Mae'r gwaith garddio yn mynd rhagddo ar hyn o bryd trwy gyfleoedd	Cynnal a Chadw / Garddwr	Cwblhawyd

		gwaith gwirioneddol â thâl i ddefnyddwyr y gwasanaeth ac mae garddwr yn mynychu i gynorthwyo'n wythnosol. Mae dodrefn awyr agored newydd wedi'u harchebu a disgwylir y byddant yn cael eu danfon mewn un mis.		
Mae angen diweddaru'r bwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' yn ward Brenig yn rheolaidd.	Ansawdd profiad y claf	Mae'r adran therapi galwedigaethol wedi'i neilltuo i ddiweddaru'r byrddau 'dywedoch chi, gwnaethom ni'. Bydd rheolwyr wardiau yn eu gwirio'n fisol gan y byddant yn cael eu cynnwys yn y rhestr wirio amgylcheddol fisol.	Therapydd Galwedigaethol	Cwblhawyd
Rhaid atgoffa'r staff o bwysigrwydd gwisgo eu larwm personol bob amser.	Gofal diogel ac effeithiol	Cynhaliwyd cyfarfod i edrych ar yr holl faterion diogelwch gyda'r arweinwyr diogelwch, mae neges e-bost wedi'i anfon i bwysleisio pwysigrwydd gwisgo larwm ac aethpwyd i'r afael â hi yn y ddau gyfarfod staff ward. Bydd rheolwyr y wardiau yn gwirio ar hap i sicrhau bod larymau'n cael eu gwisgo.	Arweinwyr Diogelwch / Rheolwyr y Ward	Cwblhawyd
Rhaid gosod cadeiriau breichiau newydd yn y lolfa gymunol yn ward Alwen.	Ansawdd profiad y claf	Mae'r cadeiriau breichiau yn aros i gael eu casglu i'w hailglustogi. Amcangyfrifir byddant yn barod i'w dychwelyd ganol mis Awst	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	15/8/22

Rhaid labelu'r dyddiad pan fydd bwyd wedi'i becynnu yn cael ei wneud gan yr ysbyty a'i ddyddiad defnyddio olaf.	Gofal diogel ac effeithiol	Bydd y prif gogydd yn sicrhau bod yr holl fwyd wedi'i labelu â dyddiad 'defnydd olaf' cyn dod i'r wardiau. Mae'r broses wedi'i hailystyried a'i chynnwys ar restr wirio dydd a nos i sicrhau bod bwyd wedi'i labelu â 'dyddiad defnyddio olaf' a'i fod yn cael ei waredu'n unol â hynny. Bydd y gwaith papur yn cael ei fonitro a'i archwilio gan reolwyr y wardiau yn wythnosol, byddant yn dod â'r gwaith papur ar ddydd lau i gyfarfod sicrhau ansawdd y bore i'w adolygu gan y tîm uwch-reolwyr.	Prif Gogydd / Rheolwyr y Ward	Cwblhawyd
Rhaid cwblhau siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth i well safon.	Gofal diogel ac effeithiol	Mynychodd pob nyrs hyfforddiant rhoi meddyginiaeth yn fwy diogel ym mis Mai 2022 a ddarparwyd gan fferyllfa Ashtons. Gweithredwyd system 'gwirio'r gwiriwr' ar gyfer pob shift i sicrhau nad oes llofnodion coll. Bydd yr archwiliad meddyginiaeth mewnol yn cael ei gymeradwyo'n wythnosol gan reolwyr wardiau ac mae hefyd wedi'i ymgorffori yn y cyfarfod sicrhau ansawdd ar ddydd lau i dynnu sylw'r tîm uwch-reolwyr at unrhyw faterion.	Nyrs Arweiniol / Rheolwyr y Ward	Cwblhawyd

Rhaid i'r gwasanaeth ymgysylltu â chleifion i nodi ffyrdd o wneud i bob claf deimlo'n ddiogel yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty.	Gofal diogel ac effeithiol	Ar y ddwy ward mae blwch awgrymiadau / pryderon y gall defnyddwyr gwasanaeth ei ddefnyddio. Cynhelir cyfarfodydd cymunedol wythnosol sy'n annog pob defnyddiwr gwasanaeth i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu faterion ynghylch deinameg y ward. Gofynnwyd i nyrsys ymgorffori'r testun 'teimlo'n ddiogel' mewn sesiynau un-i-un. Gofynnwyd i'r therapydd galwedigaethol lunio archwiliad dan arweiniad y claf sy'n canolbwyntio ar 'deimlo'n ddiogel'.	Rheolwyr y Ward / Therapydd Galwedigaethol	20/7/2022
Rhaid datblygu polisi i nodi'r gofynion ar gyfer defnydd diogel o'r Ardaloedd Gofal Ychwanegol ar bob ward.	Gofal diogel ac effeithiol	Trafodwyd y defnydd o'r Ardaloedd Gofal Ychwanegol mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol ac maent wedi'u datgomisiynu ac ni fyddant yn cael eu defnyddio mwyach ar gyfer gofal cleifion. Bydd yr Ardaloedd Gofal Ychwanegol yn cael eu had-drefnu ac mae trafodaethau'n parhau ar hyn.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Cwblhawyd
Rhaid cofnodi amllder ac amser parhau ymyriadau therapiwtig mewn cynlluniau gofal a thriniaeth.	Gofal diogel ac effeithiol	Mae rheolwyr y wardiau yn cwblhau archwiliadau o gynlluniau gofal ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth. Bydd y nyrs arweiniol yn cyflwyno hyfforddiant ar gynlluniau gofal i'r holl staff cofrestredig.	Therapydd Galwedigaethol / Nyrs Arweiniol	14/7/22

Rhaid adolygu gweithgareddau archwilio i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n briodol a'u bod yn effeithiol o ran nodi gwallau a meysydd i'w gwella.	Gofal diogel ac effeithiol	Mae hyn wedi cael sylw mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol lleol. Mae archwiliadau wedi'u hychwanegu at y cyfarfod sicrhau ansawdd wythnosol ar ddydd lau i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu harchwilio. Gall y tîm uwch-reolwyr weithredu ar unrhyw beth a nodir. Gweithredwyd system 'gwirio'r gwiriwr' ar gyfer pob shift i helpu i wella'r broses o nodi gwallau.	Tîm Uwch-reolwyr	Cwblhawyd
Rhaid parhau ag ymdrechion i recriwtio mwy o staff parhaol er mwyn lleihau cyfran y staff asiantaeth sy'n gweithio yn yr ysbyty.	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	Mae hysbyseb ar hysbysfwrdd electronig lleol. Mae bwrdd hysbysebu wedi ei osod y tu allan i'r ysbyty i annog pobl i ymgeisio am swyddi. Mae'r brif swyddfa yn parhau i hysbysebu pob swydd wag yn genedlaethol ar safleoedd swyddi ac mewn cyfnodolion perthnasol a cheir cymhellion i ymuno â'r cwmni. Gallai cyhoeddi adroddiad newydd AGIC annog ceisiadau. Mae staff asiantaeth yn cael eu harchebu mewn bloc am dri mis i sicrhau cysondeb a pharhad gofal; fe'u hanogir yn rheolaidd i ymuno â'r cwmni.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Parhaus

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Louise Burrows

Cyfarwyddwr yr Ysbyty

24 Mehefin 2022